

---

## **PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 27.06.19**

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr: Eryl Jones-Williams, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dewi W Roberts, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Dafydd Meurig yn Gadeirydd am 2019/20.**

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd am y cyfnod 2019/2020**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R Medwyn Hughes, R Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Mair Rowlands a Dyfrig Siencyn

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14.02.19 fel rhai cywir

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol**

oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## **8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

Amlygwyd pryder gan aelod yn nifer y ceisiadau ar gyfer swyddi allweddol ac awgrymwyd y dylid hysbysebu yn allanol er mwyn ceisio mwy o ddiddordeb. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr bod hwn yn rhan o'r broses o gyflawni arbedion ac na fyddai modd gwneud hynny pe byddem yn mynd tu allan i'r Cyngor i benodi. Ar ben hynny roedd angen cydnabod a rhoi cyfleoedd i staff y Cyngor ac roedd yn hyderus fod yna ddeunydd yn y ceisiadau fyddai'n gwneud Pennaethiaid da.

Adroddodd y Cadeirydd bod un cais wedi ei dderbyn am y swydd oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig.

Trafodwyd y cais yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

### **PENDERFYNWYD BOD YR YMGEISYDD YN GYMWYS I'W ROI AR Y RHESTR FER**

## **9. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH TAI AC EIDDO**

Nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi cynnal adolygiad o drefniadau rheolaethol y Cyngor er mwyn ceisio cyfarch arbedion effeithlonrwydd. I wireddu'r amcanion hynny, a dymuniad y Cabinet i roi blaenoriaeth i'r Strategaeth Tai, penderfynwyd creu Adran Tai ac Eiddo. Byddai'r Pennaeth llwyddiannus yn arwain ar brosiectau o adeiladu tai ar gyfer pobl Gwynedd.

Adroddodd y Cadeirydd bod dau gais wedi ei dderbyn am y swydd, oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

### **PENDERFYNWYD BOD YR YMGEISWYR YN GYMWYS I'W RHOI AR Y RHESTR FER**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cynnal canolfan asesu, cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol nad oedd costau'r Ganolfan asesu yn cael eu cyfrifo ar sail cost y pen. Nododd y Prif Weithredwr bod cynnal canolfan asesu yn greiddiol i broses penodi Pennaethiaid er mwyn sicrhau ansawdd a derbyn barn annibynnol. Byddai

cost dod i benderfyniad anghywir lawer uwch i drigolion Gwynedd. Ategwyd bod y darparwr gwreiddiol, a oedd yn cynnal gwasanaeth yn y Gymraeg, bellach wedi ymddeol. O ganlyniad, adroddwyd y byddai trefniant newydd yn cael ei brofi drwy ddefnyddio cwmni allanol i gynnal y profion seicometreg a threfniant mewnol ar gyfer cynnal y ganolfan asesu ei hun.

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor bod cyflog y swydd Pennaeth Tai ac Eiddo newydd wedi'i harfarnu ar lefel HS2 drwy ddefnyddio system Hay, sef yr un system a ddefnyddir ar gyfer arfarnu pob swydd ar lefel Pennaeth ac uwch.

Cytunwyd i gyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 18fed o Orffennaf yn datgan y dylid sefydlu cyflog y swydd ar raddfa HS2 a bod y Polisi Tâl ar gyfer 2019-20 yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben am 11:55am